**Datganiad o Reswm**

**Y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arfaethedig ar Old Station Road**, Porthcawl.

Yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor ar gyfer ailddatblygu ar Old Station Road, cynigir diwygio'r cyfyngiadau parcio presennol ar Old Station Road, fel y dangosir ar y Deilsen Map L74 bresennol a'r Deilsen Map L74 Diw.1 arfaethedig

Bwriedir adleoli'r bae aros cyfyngedig presennol (AROS AM UCHAFSWM O 1 AWR DIM DYCHWELYD O FEWN UN AWR-DYDD LLUN I DDYDD SADWRN) (RHWNG 8AM A 6PM) ar Old Station Road i hwyluso pwynt mynediad newydd i'r safle.

Cynigir hefyd gyflwyno baeau aros cyfyngedig ychwanegol ar dro gogledd-orllewinol Old Station Road, (AROS AM UCHAFSWM O 1 AWR DIM DYCHWELYD O FEWN UN AWR-DYDD LLUN I DDYDD SADWRN) (RHWNG 8AM A 6PM).

Cynigir hefyd gyflwyno cyfyngiadau parcio dim aros ar unrhyw adeg i atal parcio rhwystrol wrth fynediad y datblygiad.

Ystyrir ei bod yn fuddiol gwneud y Gorchymyn a fydd yn cyflwyno'r darpariaethau newydd am y rhesymau a nodir yn Adran 1 (a) (c) ac (f) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a nodir fel a ganlyn:

(a) osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd neu atal tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi,

(c) hwyluso teithio ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall i unrhyw ddosbarthiad o draffig (gan gynnwys cerddwyr),

(f) cynnal neu wella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg trwyddi.

Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn i ddiwygio'r cyfyngiadau parcio presennol ar Old Station Road, Porthcawl, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried y materion a nodir yn adran 122 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae'n ofynnol yn ôl Adran 122(1) bod y Cyngor yn ymarfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf 1984 (cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol gan ystyried y materion a nodir yn adran 122(2)) i sicrhau symud traffig cerbydau a thraffig arall (gan gynnwys cerddwyr) yn gyflym, yn gyfleus ac yn ddiogel, a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi arni.
Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn a122 (2) yw:-

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i safleoedd;

2. Yr effaith ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar ddefnydd cerbydau masnachol trwm o ffyrdd er mwyn cadw neu wella amwynderau'r ardaloedd y mae'r ffordd yn mynd trwyddynt;

3. Y strategaeth ansawdd aer a baratowyd dan adran 80 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso teithio i gerbydau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra'r rhai sy'n defnyddio neu'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;

5. Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn y Cyngor.

Ar ôl ystyried dyletswydd A122, ystyrir ei bod yn briodol diwygio'r cyfyngiadau parcio presennol ar Old Station Road, Porthcawl, i adleoli'r bae aros cyfyngedig a chyflwyno baeau aros cyfyngedig ychwanegol.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan y Datblygwr.